S4C

11.01.2021

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Sicrhau'r dyfodol trwy fuddsoddi mewn ieir

Roedd dyfodol fferm deuluol Ioan Humphreys ym Mhowys yn y fantol ar ôl i'w dad gael ei daro'n sâl a gorfod cael gwared ar hanner stoc bîff a defaid y fferm.

Er mwyn ceisio sicrhau dyfodol fferm Felin Newydd ger Carno a chadw'r teulu gyda'i gilydd penderfynodd Ioan fuddsoddi miliwn o bunnau mewn sied ieir o'r radd flaenaf ac ers rhai misoedd bellach, mae Ioan yn cadw 32,000 o ieir buarth ar safle newydd 'Nant yr Ieir'.

Mae Ioan, sy'n 28 mlwydd oed yn rhannu ei resymau dros gychwyn y busnes yn ystod blwyddyn anodd yn rhaglen **Ffermio** ar S4C, nos Lun, 18 Ionawr.

"Dyna pam dw i wedi gwneud e, rili," meddai Ioan. "Mae hi wedi bod yn flwyddyn mor anodd - roedd rhaid imi wneud rhywbeth. Yn y sefyllfa rydym ni ynddi yn bresennol, does neb yn gwybod beth sydd mynd i ddigwydd. Wi'n teimlo gyda'r sied ieir 'ma, mae'n rhoi tipyn bach o sicrwydd - ac yn sicrhau dyfodol y teulu a'r fferm."

"Rhyw wyth mlynedd yn ôl aeth Dad yn sâl a wnaethon ni dorri lawr hanner y stoc ac wedyn ro' ni jysd yn tician drosodd rili - doedd o ddim yn gynaliadwy. Felly o'n i'n meddwl byddai buddsoddi mewn ieir yn ein helpu ni a gwneud pethau'n well."

Dros y degawd diwethaf, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn ffermydd ieir yng Nghymru ac yn benodol ym Mhowys. Felly ar ôl ymweld â sawl sied ieir a gwneud llawer o ymchwil, penderfynodd Ioan - gyda chefnogaeth ei fam ai' dad - i fynd amdani.

Mae Ioan wedi gwario dros filiwn o bunnau ar y fenter yn paratoi'r tir, adeiladu'r sied a ffensio tua 40 erw o dir i gadw'r stoc yn ddiogel.

"Penderfynais i fynd am system *top of the range* - sef y 'Big Dutchman'. Dw i wedi gwneud y sied tipyn bach yn fwy er mwyn cael mwy o le i'r ieir gerdded o gwmpas. Mae'r drysau yn agor am 7.30 y bore ac ar agor nes bod e'n tywyllu, felly maen nhw'n cael gwneud beth maen nhw isho."

Mae Ioan yn cyfaddef bod y fenter wedi achosi sawl noson heb gwsg iddo ac roedd y broses yn un anodd ar adegau. Ond mae pethau wedi troi allan llawer gwell nac oedd Ioan yn disgwyl ac yn cynnig gwaith i'w chwaer Elliw a'i phartner.

Mae tua 30,000 o wyau yn cael eu cynhyrchu yn ddyddiol ac mae'r rhain yn mynd at yr archfarchnadoedd a llefydd eraill. Mae Ioan hefyd yn rhoi wyau i'r Fyddin Iachawdwriaeth leol yn Y Drenewydd.

Mae Ioan yn disgrifio ei flwyddyn gyntaf yn ei fenter ieir yn 'anhygoel' ac mae'r dyn busnes ifanc, yn edrych ymlaen at ddyfodol llwyddiannus.

Gallwch ddysgu mwy am brofiadau Ioan Humphreys a Nant yr Ieir yn y rhifyn nesaf o Ffermio ar Ionawr 18 ar S4C. Hefyd yn y rhifyn yma bydd y tîm yn edrych ar effaith cŵn yn aflonyddu defaid ar ffermwr yng Ngheredigion a sut flwyddyn yw hi wedi bod i winllan Pant Du yn y gogledd.

**Ffermio**
**Nos Lun 18 Ionawr 9.00, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Telesgôp ar gyfer S4C**

011.01.2021

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Securing the future by investing in chickens

The future of Ioan Humphreys's family farm was in the balance after his father fell ill and was forced to sell half the farm's stock of beef and sheep.

In order to give Felin Newydd farm near Carno a more certain future and to keep the family together, Ioan invested £1 million in a state-of-the art chicken shed and for several months now has kept 32,000 free range hens in a new site called 'Nant yr Ieir'.

Ioan, who is aged 28, shares his reasons for starting the business during such a difficult year with Alun Elidyr in **Ffermio** on S4C, Monday 18 January.

"That's why I've done it really," said Ioan. "It has been such a difficult year – I had to do something. In the situation that we're in at the moment, nobody knows what is going to happen. I feel that the chicken shed gives us a bit of certainty and secures the future of the family and the farm."

"Some eight years ago Dad fell ill, and we had halved the number of stock on the farm, so we were just ticking over, really – but it wasn't sustainable. So, I thought investing in hens would help us and make things better."

Over the last decade, there has been a significant increase in the number of chicken farms, especially in Powys. So, after visiting several chicken sheds and doing a lot of research, Ioan decided – with the support of his parents – to go for it.

Ioan has spent more than a million pounds on the venture doing the groundworks, building the shed and putting up fencing over 40 acres of land in order to keep his stock safe.

"I decided to go for a top of the range system – the 'Big Dutchman'. I have made the shed a bit bigger so that the hens have more space to move around. The doors open at 7.30 in the morning and are kept open until it gets dark, so they can do what they want."

Ioan admits that his business venture has given him a few sleepless nights and that the process was quite stressful at times. But things have turned out much better than Ioan expected and now provides work for his sister Elliw and her partner.

Around 30,000 eggs are produced every day which go to supermarkets and other places. He also donates eggs to the local Salvation Army in Newtown.

Ioan describes his first year in his new business as 'amazing' and the successful young businessman is looking forward to a successful future.

You can learn more about Ioan Humphreys and Nant yr Ieir in the next episode of **Ffermio** on Monday, 18 January on S4C. Also in this programme, the team looks at the effect of dogs worrying sheep on one Ceredigion farmer and what sort of year the Pant Du vineyard in north Wales had in 2020.

**Ffermio**
**Monday 18 January 9.00, S4C**
**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Telesgôp production for S4C**